**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2007 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran prif gynghorau yng Nghymru.

Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn diwygio Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac, o wneud hynny, yn newid rhifau'r paragraffau yn Atodlen 12A. Caiff y cyfeiriadau at Atodlen 12A yn rheoliad 10 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 eu diwygio gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 26 o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 hefyd yn cyfeirio at Atodlen 12A a chaiff y cyfeiriadau hynny eu diwygio gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth sy'n addasu cymhwysiad Atodlen 12A pan fo pwyllgor safonau yn cyfarfod i ddelio â honiad o dorri cod ymddygiad.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif (Cy. )

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2007* |
| *Yn dod i rym* | *21 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22, 53(11) a (12), 56(5), 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000([1]), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007 ac maent yn dod i rym ar 21 Ebrill 2007.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972([2]).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001**

**2.** Yn rheoliad 10 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001([3])—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "(2) a (3)", rhodder "(2) i (3)"; a

(b) yn lle paragraff (2), rhodder—

---

([1]) 2000 p.22.
([2]) 1972 p.70.
([3]) O.S. 2001/2290.

"(2) Nid yw paragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfen ar gael i'w harchwilio os yw'n ymddangos i'r swyddog priodol ei bod yn datgelu gwybodaeth esempt o ddisgrifiad syn dod o fewn Rhan 4 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972 (Disgrifiadau o Wybodaeth Esempt: Cymru).

(2A) Mae paragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol (er gwaethaf paragraff (2)) bod y ddogfen ar gael i'w harchwilio os yw'r wybodaeth yn wybodaeth o ddisgrifiad sydd am y tro yn dod o fewn—

(a) paragraff 14 o Atodlen 12A i Deddf 1972 (ac eithrio i'r graddau bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw delerau a gynigir neu sydd i'w cynnig gan yr awdurdod neu iddo yn ystod trafodaethau am gontract); neu

(b) paragraff 17 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972.".

**Diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001**

**3.** Yn rheoliad 26 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**1**)—

(a) Ym mharagraff (1)(i) ar ôl "Atodlen 12A" mewnosoder ", Rhan 4 i 6";

(b) Ym mharagraff (9) yn lle "paragraff (2) o Ran III" rhodder "paragraff 22(2) o Ran 6".

**Cymhwyso Atodlen 12A i Ddeddf 1972 at Bwyllgorau Safonau**

**4.** Pan fydd cyfarfod o bwyllgor safonau, neu is-bwyllgor o bwyllgor safonau yn cael ei gynnull i ystyried mater a atgyfeirir iddo o dan ddarpariaethau adran 70(4) neu (5) neu 71(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, bydd darpariaethau Rhan 4 i 6 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972 yn gymwys fel pe bai'r disgrifiadau canlynol o wybodaeth esempt yn cael eu mewnosod ar ôl paragraff 18 o'r Atodlen honno

" (18A) Information which is subject to any obligations of confidentiality.

(18B) Information which relates in anyway to matters concerning national security.

(18C) The deliberations of a standards committee or of a sub-committee of a standards committee established under the provisions of Part 3 of the Local Government Act 2000 in reaching any finding on a matter referred to it. ".

---

(**1**) O.S. 2001/2283.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998([1])

Dyddiad
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

([1]) 1998 p.38.